# Deddf Seilwaith (Cymru) 2024

**2024 dsc 3**

## RHAN 9

DARPARIAETHAU CYFFREDINOL

*Cyffredinol*

### 144 Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol a throsiannol etc.

(1) Os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried bod hynny'n briodol at ddibenion y Ddeddf hon, o ganlyniad iddi, neu er mwyn rhoi effaith lawn i unrhyw ddarpariaeth sydd ynddi, cânt, drwy reoliadau, wneud—

(a) darpariaeth atodol, ddeilliadol neu ganlyniadol;

(b) darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed.

(2) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) ddiwygio, addasu, ddiddymu neu ddirymu unrhyw ddeddfiad (gan gynnwys deddfiad a geir yn y Ddeddf hon).